Cyd-Bwyllgor Moeseg Annibynnol

Dydd Iau, 7 Mawrth, 2024

HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE

CYD-BWYLLGOR MOESEG ANNIBYNNOL

COFNODION

Dydd Iau, 7 Mawrth 2024, 13:00 – 16:00 – Ystafell Gyfarfod Dyffryn ym Mhencadlys yr Heddlu, Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3SU.

1a. Yn bresennol

Dr John William Devine (Cadeirydd)
Mr Mike Lewis (Is-gadeirydd)
Mrs Bronwen Williams

Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Danny Richards
Mr Lee Jones
Ms Jayne Woodward
Ms Nia Brennan
Mr Martyn Jones
Y Prif Uwch-arolygydd Mark Lenihan

Yr Arolygdd Sian O'Shea
Ms Lucy Durnell
Ms Sophie Williams (Cofnodion)

Cyflwynwyr Gwadd:

Y Cod Moeseg
Ditectif Brif Arolygydd Dros Dro James Howe – Cyflwynydd

Technoleg Adnabod Wynebau Byw (LFR)
Y Prif Arolygydd Scott Lloyd - Cyflwynydd

Ymddiheuriadau:
Ms Amy Davies
Dr Jacqueline Gantley
Ms Claire Corrigan
Mr Joga Singh
Ms Carol Woodward

2. Y Cod Moeseg

Crynodeb y Cadeirydd

Roedd a wnelo rhan gyntaf y cyfarfod â Chod Moeseg 2024 newydd ei lansio a Chod Ymarfer ar gyfer Plismona Moesegol 2023, a wnaeth ddisodli Cod Moeseg 2014. Roedd Cod Moeseg 2024 yn cynnwys dwy ran, y mae'r ddwy ohonynt yn anstatudol: 'Egwyddorion Plismona Moesegol' a'r 'Canllawiau ar gyfer Ymddygiad Moesegol a Phroffesiynol ym Maes Plismona'. Cefnogir y Cod gan y 'Cod Ymarfer ar gyfer Plismona Moesegol' statudol y mae prif swyddogion yn rhwym wrthynt yn benodol.

Gan fod y Cod yn ganolog i waith y Pwyllgor, credwyd ei bod hi'n hanfodol i'r Pwyllgor gael ei friffio ar y fframwaith moesegol newydd hwn a'r ffordd y mae ei gynnwys yn wahanol i'r cod blaenorol. Gwnaeth y Ditectif Brif Arolygydd James Howe gyflwyniad i'r Pwyllgor a gofynnodd gwestiynau yn ymwneud â'r cod newydd.

Croesawodd y Pwyllgor y gorchmynion manylach a'r enghreifftiau mwy niferus a gafodd eu cynnwys yn rhifyn diweddaraf y Cod. Croesawodd y Pwyllgor hefyd ymdrechion HDC i ddosbarthu cynnwys y Cod newydd i swyddogion a staff er mwyn sicrhau bod holl

2. Y Cod Moeseg

staff HDC sy'n rhwym wrtho yn deall eu rhwymedigaethau o dan y Cod a bod y Pwyllgor yn edrych ymlaen at adroddiadau pellach dros y misoedd sydd i ddod ar sut bydd y Cod newydd yn cael ei ymgorffori ym mywyd pob dydd yr heddlu.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cod ar gael gan y Coleg Plismona yn:

https://www.college.police.uk/ethics/code-of-ethics

3. CYFYNG-GYNGOR MOESEGOL – Defnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw

Crynodeb y Cadeirydd

Yn ail ran y cyfarfod, ystyriodd y Pwyllgor cyfyng-gyngor o ran y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw (LFR). Er bod y mater hwn wedi'i ystyried gan y Pwyllgor yn flaenorol, mae'n bwysig bod materion dadleuol fel LFR yn cael eu craffu arnynt yn foesegol o bryd i'w gilydd, er mwyn i safle'r Pwyllgor ar y materion hyn gael eu diwygio yng ngoleuni tystiolaeth a datblygiadau newydd ym maes damcaniaethu moesegol perthnasol, ond hefyd er mwyn atgoffa aelodau HDC o ddadleuon sy'n berthnasol i'r mater ac ail-arfarnu cryfderau a gwendidau'r dadleuon hynny. Yn gryno, mae craffu'n foesegol ar faterion dadleuol o bryd i'w gilydd yn hwyluso'r broses o ailystyried safle'r Pwyllgor ac mae'n hwyluso dealltwriaeth o'r newydd ymhlith swyddogion a staff o'r dadleuon moesegol sy'n sail i'r safiad hwnnw.

Cyflwynodd y Prif Arolygydd Scott Lloyd y cyfyng-gyngor hwn i'r Pwyllgor. Y Prif Arolygydd Lloyd yw'r Cydlynydd Gwyddoniaeth ac Arloesi newydd ei benodi ar gyfer y maes plismona yn genedlaethol. Bydd yn helpu'r Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan, yr Arweinydd Gwyddoniaeth ac Arloesi cyntaf ar gyfer Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion. Cyn y rôl hon, arweiniodd y Prif Arolygydd Lloyd gynllun peilot y dechnoleg adnabod wynebau sy'n parhau o fewn HDC.

Cefndir

Mae tair ffurf i ddefnydd yr heddlu o dechnoleg adnabod wynebau:

1. Adnabod Wynebau Ôl-weithredol;
2. Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Swyddog; a
3. Thechnoleg Adnabod Wynebau Byw.

Gellir dod o hyd i fanylion defnydd HDC o dechnoleg adnabod wynebau byw yma:

https://www.south-wales.police.uk/cy-GB/heddluoedd/heddlu-de-cymru/ardaloedd/amdanom-ni/amdanom-ni/facial-recognition-technology/

Mae defnydd HDC o dechnoleg adnabod wynebau wedi arwain at 66 o arestiadau am droseddau yn amrywio o fygythiadau i ladd, ymosodiadau hiliol a niwed corfforol difrifol cysylltiedig â'r teulu.

LFR sydd wedi denu'r sylw mwyaf beirniadol o'r tri math gwahanol o dechnoleg adnabod wynebau, ac LFR oedd testun achos Llys Apêl *R (Bridges) yn erbyn Prif Gwnstabl De Cymru* (https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2020/08/R-Bridges-v-CC-South-Wales-ors-Judgment.pdf). Roedd a wnelo'r cyfyng gyngor gerbron y Pwyllgor yn y cyfarfod hwn â'r defnydd o LFR yn unig.

3. CYFYNG-GYNGOR MOESEGOL – Defnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw

Mae'r Coleg Plismona wedi cyhoeddi Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig i reoli'r defnydd o LFR yma:

https://www.college.police.uk/ap/live-facial-recognition

Diwygiwyd y Cod ar gyfer Camerâu Gwyliadwriaeth yn 2021 (https://www.gov.uk/government/publications/update-to-surveillance-camera-code), gan ymgorffori penderfyniad y Llys Apêl yn *Bridges*.

Mae LFR yn cymharu ffrwd camera byw o wynebau yn erbyn rhestr wylio wedi'i phenderfynu ymlaen llaw i ganfod cyfatebiaeth bosibl sy'n creu rhybudd. Mae'r rhestr wylio yn cynnwys y rhai sydd dan amheuaeth o gyflawni trosedd, yn ogystal â phobl agored i niwed y gall fod angen cymorth yr heddlu arnynt. Dyluniwyd LFR i helpu'r heddlu i adnabod a dod o hyd i'r bobl y mae'r heddlu neu'r llysoedd yn chwilio amdanynt.

Gellir defnyddio LFR mewn modd cudd neu agored. Roedd a wnelo'r cyfyng-gyngor hwn â'r defnydd agored o LFR, lle nad yw'r camerâu â thechnoleg LFR wedi'u cuddio ond mae modd i'r cyhoedd eu gweld ar fastiau ar ben faniau heddlu wedi'u marcio.

Un o atyniadau LFR fel adnodd plismona yw nad yw'r dechnoleg yn blino yn yr un modd ag y gallai swyddog ei wneud, oherwydd gall storio miloedd o ddelweddau ac mae'n fwy cywir na'r llygad dynol. Mae'n bwysig nodi mai swyddog yr heddlu fydd yn penderfynu yn y pen draw p'un a ddylai weithredu ar gyfatebiaeth gadarnhaol a wneir gan dechnoleg LFR. Felly, nid yw cyfatebiaeth a wnaed gan y system LFR yn arwain o reidrwydd at arestiad, er enghraifft. Mae LFR yn helpu yn hytrach na disodli penderfyniadau a wneir gan heddlu dynol.

Caiff delweddau ffotograffig (a thempledi biometrig sy'n cyd-fynd â nhw) a dynnir gan gamerâu LFR, nad ydynt yn cyfateb ag unrhyw ddelweddau ar y rhestr wylio eu dileu o'r system ymhen 0.2 eiliad. Caiff delweddau nad ydynt yn cynhyrchu rhybudd eu dileu'n syth ar ôl eu defnyddio neu cyn pen 24 awr. Nid oes tystiolaeth o oedran, rhyw na rhagfarn hiliol ar y lleoliadau y caiff y dechnoleg ei defnyddio gan HDC ar hyn o bryd.

Y Cwestiwn a Ofynnwyd i'r Pwyllgor

Y cwestiwn a ofynnwyd i'r Pwyllgor oedd a ddylid atal defnydd yr heddlu o LFR. Ni ofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried moeseg LFR *ab initio*. Yn hytrach, gofynnwyd iddo benderfynu a oedd rheswm da i HDC atal y defnydd o LFR, er gwaethaf cefnogaeth y Pwyllgor o blaid LFR yn y gorffennol.

Codwyd dau wrthwynebiad i'r defnydd o LFR gan aelodau'r Senedd a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn gohebiaeth ddiweddar â'r Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan, sef:

1. Nid yw LFR wedi bod yn destun dadlau seneddol digonol; a
2. Nid yw deddfwriaeth sylfaenol i reoli'r defnydd o LFR wedi'i deddfu ac, o ganlyniad, mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli LFR yn annigonol.

Y cwestiwn gerbron y Pwyllgor oedd a ddylai argymell bod y defnydd o LFR yn cael ei atal hyd nes bod digon o ddadlau seneddol a/neu ddeddfwriaeth sylfaenol wedi'i deddfu i reoli'r defnydd o LFR.

Cymesuredd y defnydd o LFR

3. CYFYNG-GYNGOR MOESEGOL – Defnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw

Defnyddiwyd LFR ar tua 110 o achlysuron gan HDC ers 2017, felly mae'r defnydd ohono wedi bod yn eithaf cyfyngedig. Mae LFR yn arwain at 1 arestiad fesul 100,000 o ddelweddau wedi'u prosesu (https://www.south-wales.police.uk/cy-GB/heddluoedd/heddlu-de-cymru/ardaloedd/amdanom-ni/amdanom-ni/technoleg-adnabod-wynebau/). At hynny, mae'n anodd mesur effaith ataliol LFR. Gall LFR rwystro cyflawnwyr sy'n ofni cael eu hadnabod rhag cyflawni troseddau mewn digwyddiadau mawrion lle y caiff LFR ei ddefnyddio.

Rheoliadau Cyfreithiol

Mynnodd *Bridges* y caiff defnydd yr heddlu o LFR ei ganiatáu'n gyfreithlon. Fodd bynnag, gall defnyddio pwerau cyfreithiol fod yn anfoesegol am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys pe bai'r defnydd o LFR yn tanseilio ffydd a hyder yn yr heddlu. Mae'r fframwaith cyfreithiol presennol sy'n rheoli'r defnydd o LFR yn dilyn 'dull tapestri', lle na chaiff LFR ei reoli gan fframwaith cyfreithiol unedig ond gan gymysgedd o gyfraith achosion a chyfraith statud. Awgrymwyd y dylid disodli'r dull tapestri hwn â deddfwriaeth sylfaenol a ddyluniwyd yn benodol i reoli'r defnydd o LFR. Byddai deddfwriaeth sylfaenol yn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ddeall y gyfraith yn ymwneud â defnyddio LFR a byddai'n egluro pa gymorth fydd ar gael i'r cyhoedd os camddefnyddir y dechnoleg. O ganlyniad, gall deddfu deddfwriaeth sylfaenol helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder ymhlith y cyhoedd yn y defnydd o'r dechnoleg hon.

Fodd bynnag, nid oes llinell amser glir i ddeddfu deddfwriaeth sylfaenol ar y mater hwn, felly mae'n bosibl na fydd deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei deddfu am sawl blwyddyn, os o gwbl. Gwnaed y pwynt i'r Pwyllgor hefyd bod y dull o ddefnyddio technoleg plismona lle roedd angen atal defnyddio technoleg newydd hyd nes i ddeddfwriaeth sylfaenol i reoli'r defnydd ohoni yn peri problem, oherwydd mae'r broses o greu deddfwriaeth sylfaenol yn araf a chaiff technoleg yn aml ei datblygu'n gynt na deddfwriaeth, felly byddai dibynnu ar ddeddfwriaeth sylfaenol yn golygu bwlch hir rhwng datblygu'r dechnoleg a phryd y bydd ar gael i'r heddlu ei defnyddio. Gall deallusrwydd artiffisial a chyfrifiadureg cwantwm ddarparu rhagor o enghreifftiau o ddatblygiadau technolegol sydd wedi symud ymlaen yn gynt na deddfwriaeth.

Dadl Seneddol

Bu HDC yn defnyddio LFR ers 2017, ac nid yw wedi bod yn destun dadl seneddol yn y Senedd na Thŷ'r Cyffredin eto. Gwnaed y pwynt i'r Pwyllgor, er gwaethaf Brexit, COVID a'r argyfwng costau byw, a oedd yn defnyddio cryn dipyn o amser y senedd, y cafwyd digon o gyfleoedd i seneddwyr drafod y mater hwn ers iddo gael ei gyflwyno.

Dulliau o Hysbysu'r Cyhoedd

Roedd pryder a godwyd gan y Pwyllgor yn ymwneud â'r ffyrdd o hysbysu'r cyhoedd bod LFR agored yn cael ei defnyddio mewn ardal benodol. Mae Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig LFR (nodwyd y ddolen uchod) yn rhoi manylion ar sut y dylid hysbysebu'r defnydd o'r dechnoleg (h.y. trwy wefan a sianelau cyfryngau cymdeithasol yr heddlu, a gydag arwyddion wedi'u harddangos y tu mewn ac wrth gyrraedd lleoliad y defnydd ohoni). Fodd bynnag, mae'n bosibl y cynghorir sianelau cliriach er mwyn gwneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol y caiff LFR ei defnyddio mewn ardal benodol. Yn benodol, gallai hysbysiadau i rybuddio'r cyhoedd o'r defnydd ohoni fod yn amlycach ac yn fwy safonol.

Sianeli ar gyfer Cwyno

Pryder arall a godwyd gan y Pwyllgor oedd, er y gall sawl rheoleiddiwr a chomisiynydd y gall aelodau o'r cyhoedd gwyno iddynt mewn perthynas â'r defnydd o LFR (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ymhlith eraill), gall nifer y sianelau y gellir cyfeirio cwyn sy'n gysylltiedig ag LFR atynt fod yn ddryslyd o bosibl. Felly, cynghorir bod y weithdrefn gwyno yn symlach ac yn haws i'r cyhoedd ei llywio.

3. CYFYNG-GYNGOR MOESEGOL – Defnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw

Newid Cymeriad Lleoedd Cyhoeddus

Tra canolbwyntiodd *Bridges* ar y niweidiau posibl i unigolion sy'n codi yn sgil defnyddio LFR, gellid hefyd ystyried pryderon cymdeithasol ehangach. Beth mae'r defnydd o LFR yn ei wneud i ardal a sut mae'n effeithio ar ymgysylltiad pobl ag ardal a'u hymddygiad ynddi? A allai LFR newid cymeriad y lle cyhoeddus o amgylch yr ardal defnyddio? Er enghraifft, a yw'r defnydd o LFR mewn ardal yn arwain pobl i osgoi rhyngweithio'n wahanol gyda'r amwynderau a busnesau cymdeithasol yn yr ardal honno? Ymddengys bod y pwnc yn barod i HDC ymchwilio iddo ar y cyd â phartneriaid.

Natur 'Atal'

Ystyriodd y Pwyllgor a oedd 'atal' yn gofyn am roi'r gorau'n llwyr i ddefnyddio LFR. Yn hytrach na rhoi'r gorau i ddefnyddio LFR yn llwyr, crybwyllwyd y posibilrwydd y gallai LFR gael ei chadw ar gyfer cyngherddau mawr neu ddigwyddiadau chwaraeon sy'n ddeniadol i rai mathau o droseddwyr. Gellir atal y defnydd o LFR mewn cyd-destunau eraill fel y tu allan i orsafoedd rheilffordd neu ar strydoedd cyhoeddus. Gallai hyn gynnig dull sy'n cadw'r defnydd o LFR ar gyfer digwyddiadau penodol i blismona ac yn atal y defnydd ohono at ddefnydd mwy cyffredinol. Er bod hyn yn cael ei gymell gan ddeallusrwydd bob amser, gall ymddangos i rai aelodau o'r cyhoedd i fod yn 'broses o bysgota' lle y caiff y cyfarpar ei ddefnyddio heb resymeg benodol i sganio wynebau pobl sy'n mynd heibio ar strydoedd mawr i weld beth y mae modd ei ganfod.

Arwyddocâd Moesegol Ymddiriedaeth a Hyder

Mae'n bosibl bod ymddiriedaeth a hyder ym maes plismona yn fwy cyffredinol wedi erydu dros y pum mlynedd diwethaf yn sgil materion byd-eang fel y rhai y daethpwyd ar eu traws yn ystod pandemig COVID-19, materion a amlygwyd gan fudiad Mae Bywydau Du o Bwys a llofruddiaeth Sarah Everard. Mae lefelau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn yr heddlu yn foesegol arwyddocaol wrth gadarnhau cyfiawnhad moesegol LFR. Dan amgylchiadau lle mae gan y cyhoedd lefelau ymddiriedaeth isel yn yr heddlu, gall technoleg fel LFR fod yn anos ei 'chyfiawnhau' oherwydd bod ei chymhlethdodau technegol yn gwaethygu diffyg ymddiriedaeth. Er enghraifft, mae'n anodd i'r cyhoedd wirio bod y lluniau a dynnwyd, wedi'u dileu mewn gwirionedd neu, na fydd y camerâu yn cael eu defnyddio at ddibenion annilys. I ryw raddau, gofynnir i'r cyhoedd ymddiried ynom fod hyn yn wir. Felly, mae'n bwysig ystyried y mater hwn yng nghyd-destun lefelau ymddiriedaeth amlwg yn yr heddlu, neu'n benodol, lefelau ymddiriedaeth gyhoeddus yn yr heddlu i ddefnyddio'r dechnoleg honno'n gyfrifol.

Lefelau Cymorth Cyhoeddus ar gyfer LFR

Pwysleisiodd tri adroddiad gymorth cyhoeddus cryf am y defnydd o LFR (gan gynnwys yr adroddiad hwn gan Sefydliad Ada Lovelace: https://www.adalovelaceinstitute.org/report/beyond-face-value-public-attitudes-to-facial-recognition-technology/). Cafodd y syniad bod yr adroddiadau hyn yn cadarnhau cymorth y cyhoedd am LFR ei herio gan y Pwyllgor i'r graddau lle nad yw cefnogaeth 'ar y cyfan' neu 'o ystyried popeth' yr ymatebydd ar gyfer polisi neu ymarfer o reidrwydd yn anghyson â'i bryderon cryf am rai agweddau ar y polisi neu ymarfer.

Os bydd diffyg cefnogaeth am LFR ymhlith poblogaethau lleiafrifol sydd wedi codi pryderon am gael eu gorblismona o gymharu â gweddill y boblogaeth, mae'n bosibl y bydd hyn yn rheswm i roi llai o bwysau i'r gefnogaeth ganfyddedig am LFR ymhlith y boblogaeth gyffredinol mewn penderfyniadau moesegol. Dylid cynnal mwy o waith ymchwil i gadarnhau pa lefelau a pha fath o gefnogaeth gyhoeddus, ac ymhlith pa ddemograffeg, sy'n bodoli ar gyfer y defnydd o LFR. Gall De Cymru yn Gwrando (https://www.decymruyngwrando.co.uk/) fod yn fforwm gwerthfawr i fesur cefnogaeth y cyhoedd am LFR, ond byddai ymchwil academaidd mwy ffurfiol yn bwysig hefyd.

3. CYFYNG-GYNGOR MOESEGOL – Defnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw

Casgliadau

Wrth gwblhau ei ganllawiau, pwysleisiodd y Pwyllgor y cwestiwn cyfyngedig a ofynnwyd. Gofynnwyd iddo ystyried a ddylid ond atal defnydd agored o LFR hyd nes bod digon o ddadlau seneddol wedi'i wneud a/neu hyd nes bod deddfwriaeth sylfaenol i reoli'r defnydd o LFR wedi'i deddfu. At hynny, gofynnwyd i'r Pwyllgor ond ystyried a ddylid atal y defnydd presennol o LFR.

Yng ngoleuni'r cyfyngiadau hynny, nid oedd aelodau annibynnol o'r farn fod angen atal ymarfer LFR presennol. Fodd bynnag, wrth wrthod argymell atal, ni ddylid deall bod y Pwyllgor yn cymeradwyo unrhyw broses o ehangu neu uwchgyfeirio arferion LFR. Er enghraifft, byddai'r Pwyllgor yn poeni am unrhyw gynlluniau i wneud ffotograffau pasbort yn hawdd eu chwilio ar restrau gwylio LFR neu i wneud defnydd o LFR yn rhan wedi'i rheoleiddio o fywyd yn y cylch cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor yn cymryd y pryderon 'llethr llithrig' o ddifrif mewn perthynas â'r ffordd y gall y defnydd dwysach o LFR gyfrannu at 'gymdeithas o guddwylio'. O gofio'r pryderon hyn, gofynnodd y Pwyllgor am i unrhyw gynlluniau i ehangu neu ddwysáu arferion LFR presennol gael eu cyfeirio'n ôl at y Pwyllgor am ystyriaeth bellach.

Yn ogystal â'r argymhelliad hwn mewn ymateb i'r cwestiwn cyffredinol a ofynnwyd iddo mewn perthynas ag atal LFR, mae'r Pwyllgor hefyd yn gwneud y pum argymhelliad canlynol:

1. **Dadl Seneddol:** Cyflwynwyd LFR yn HDC yn 2017. Er gwaethaf digwyddiadau mawr fel Brexit, pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw, mae'n ymddangos y byddai hyn wedi bod yn ddigon o amser i ddadlau LFR yn y senedd. Mae'r Pwyllgor yn annog dadlau LFR yn y senedd cyn gynted â phosibl, gan fod y mater hwn yn codi materion hollbwysig am rôl technoleg ym maes plismona a'r gydberthynas rhwng yr heddlu a'r cyhoedd.
2. **Gweithdrefn gwyno:** Mae'r Pwyllgor yn argymell dod â mwy o eglurder i'r ffordd y dylai aelodau'r cyhoedd gofnodi cwynion ynghylch defnyddio LFR ac i bwy y dylid cyfeirio'r cwynion hynny. Dylid cael corff dynodedig, fel Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel yr unig gorff cyfrifol i drafod y cwynion hyn.
3. **Hysbysu ynghylch y Defnydd**: Dylai hysbysiadau i'r cyhoedd yn rhoi gwybod iddynt fod LFR yn cael ei defnyddio mewn ardal benodol fod yn amlycach ac yn fwy safonol rhwng defnyddiau. Dylai'r hysbysiadau hynny fod yn ddigon amlwg fel na all rhywun fynd i mewn i barth lle y mae LFR yn cael ei defnyddio heb basio hysbysiadau sydd i'w gweld mewn print mawr ac ar lefel sy'n rhoi gweledigaeth.
4. **Ymchwil**: Gall HDC ddymuno ystyried gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu ymchwil (gyda phartneriaid o bosibl) ar bynciau fel
    - A yw'r defnydd o LFR yn newid cymeriad y lle cyhoeddus fel bod aelodau'r cyhoedd yn ymddwyn yn wahanol mewn ardaloedd masnachol ac ardaloedd o amwynderau cyhoeddus lle y defnyddir LFR; a
    - Pha lefelau a pha fath o gefnogaeth gyhoeddus, ac ymhlith pa ddemograffeg, sy'n bodoli ar gyfer y defnydd o LFR yn Ne Cymru.
5. **Craffu Lleol:** Er bod llawer o'r materion sy'n ymwneud â'r defnydd o LFR yn codi ar lefel genedlaethol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod HDC yn mynd i'r afael â phryderon cyhoeddus yn lleol. Byddai ffurfio panel craffu a sicrwydd lleol a fyddai'n astudio materion yng ngwyddoniaeth a thechnoleg plismona, gan gynnwys technoleg adnabod wynebau, yn fenter gwerth chweil. Gallai grŵp o'r fath geisio dilyn y model a ddefnyddir yn y Pwyllgor Goruchwylio Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff. Neu, gall grŵp o'r fath gael ei ffurfio fel grŵp arbenigol o Grŵp Cynghori Annibynnol HDC, sydd wedi ffurfio grwpiau arbenigol yn ymwneud, er enghraifft â 'throseddau casineb' a 'thrais yn erbyn menywod a merched'. Byddai'n ddymunol o safbwynt dilysrwydd y dylai unrhyw grŵp o'r fath gael ei gyfansoddi gan arbenigwyr pwnc ond hefyd gan aelodau lleyg.